Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Fersiwn DDRAFFT o’r Fframwaith Cymwyseddau ar gyfer y Gweithlu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh)

**Fersiwn Ddrafft 5 20.12.21**

## Cyflwyniad

**Swyddogaethau’r ‘Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol’ (YGC) a Phersonél Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh) eraill**

Mae Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymgymryd â beth yn fras a ellir ei ddisgrifio fel swyddogaeth cymorth gwaith cymdeithasol, darparu cyngor a chwblhau amrywiol agweddau o gynllunio gofal a chefnogaeth (asesu, cynllunio ac adolygu).

Mae swyddogaeth GCCh ehangach ychwanegol, o fewn y gwasanaeth GCCh. Gall y gwasanaeth amrywio yn sylweddol yn ei gynllun a’i seilwaith ar draws ac o fewn awdurdodau lleol. Gall gynnwys amrediad o wahanol gyfarwyddiaethau, er enghraifft, gwasanaethau cymdeithasol, tai a gwasanaethau corfforaethol yn ogystal â darpariaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd. Mae angen i weithwyr ymateb i amrediad eang o geisiadau a nhw yw’r cyswllt cyntaf i’r rhai hynny sy’n holi ynglŷn â gofal a chefnogaeth.

Yn benodol, drwy sgyrsiau medrus, bydd gweithwyr GCCh yn egluro beth y mae pobl yn ei feddwl ac yn archwilio eu dilema er mwyn deall beth sydd o’r pwys mwyaf iddyn nhw a sut orau i’w helpu nhw drwy ddarparu un ai:

**Rhoi gwybodaeth** – mae hwn yn cynnwys cefnogi pobl drwy ddarparu gwybodaeth o ansawdd da sy’n eu helpu nhw i wneud penderfyniadau deallus ynglŷn â’u llesiant. Gall hyn gynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut mae’r system gofal cymdeithasol yn gweithio, argaeledd gwasanaethau a all gynorthwyo eu llesiant ynghyd â sut i gael mynediad atyn nhw, taliadau uniongyrchol, neu wybodaeth ynglŷn ag asesiadau’r gofalwyr.

**Darparu Cyngor** – cam yn uwch o'r ddarpariaeth seml o wybodaeth yw hwn, yn y modd y mae'n cynnwys gweithio gyda phobl er mwyn trafod y dewisiadau sydd ar gael er mwyn dod o hyd i'r atebion gorau ar eu cyfer. Er mwyn darparu cyngor, mae staff yr awdurdodau lleol angen dealltwriaeth ynglŷn â sefyllfaoedd pobl. Gwneir hyn drwy gynnal asesiad cymesur.

**Darparu Cymorth** – os ydych chi'n methu ag ymdrin ag anghenion yr holwr drwy ddarparu gwybodaeth neu gyngor, bydd cymorth yn golygu y bydd unigolyn arall yn gweithredu gyda'r holwr i gael mynediad at ofal a chefnogaeth, neu ofalwr i gael mynediad at gefnogaeth. Gall hyn arwain yr holwr ymlaen i dderbyn neu gynnig asesiad statudol llawn er mwyn penderfynu eu cymhwysedd ar gyfer derbyn gofal a chefnogaeth mwy ffurfiol.

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Codau Ymarfer**

Roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) yn darparu'r sylfaen ar gyfer fframwaith statudol newydd i ofal cymdeithasol yng Nghymru. Egwyddorion y Ddeddf yw:

- Llais a rheolaeth
- Ataliad ac ymyrraeth gynnar
- Llesiant
- Cydgynhyrchu
- Gweithio amlasiantaethol

Mae'r gwasanaeth GCCh yn gyfraniad pwysig i gwrdd â'r egwyddorion hyn. O dan y Ddeddf, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu gwasanaeth sy'n cynnig:

- Gwybodaeth hygyrch ynglŷn â gofal a chefnogaeh
- Cyngor sy'n briodol ac sy'n dilyn asesiad cymesur
- Cymorth sy'n galluogi unigolion i gael mynediad at y gofal a'r gefnogaeth briodol, gan gynnwys gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar.

Mae'r Côd Ymarfer ar gyfer Rhan 2 o'r Ddeddf (Swyddogaethau Cyffredinol) yn nodi bod y gwasanaeth GCCh yn ganolog i lwyddiant y trawsnewidiad i'r system gofal a chefnogaeth o dan y Ddeddf. Drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth amserol o ansawdd da, gall pobl o bob oed gael eu cefnogi yn well i ystyried dewisiadau ar gyfer cwrdd â'u hanghenion gofal a chefnogaeth er mwyn cyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddyn nhw.

Yn arbennig, mae'r Côd Ymarfer[1] angen i awdurdodau lleol:

- Ddarparu gwybodaeth a chyngor ynglŷn â:
    - Sut mae'r system gofal a chefnogaeth yn gweithredu yn ardal yr ALI
    - Y mathau o ofal a chefnogaeth sydd ar gael
    - Sut i gael mynediad at y gofal a'r gefnogaeth sydd ar gael
    - Sut i godi pryderon ynglŷn â llesiant unigolyn sy'n ymddangos bod ganddo anghenion ar gyfer derbyn gofal a chefnogaeth
- Hyrwyddo ymyrraeth gynnar ac ataliaeth yn rhagweithiol
- Bod yn onest a chroesawus, gyda phwyslais ar eiriolaeth a chydgynhyrchu.
- Hyfforddi staff mewn protocolau diogelu

Mewn perthynas â staffio'r gwasanaeth GCCh, mae'r Côd Ymarfer[2] angen i awdurdodau lleol:

- Sefydlu tîm sy'n adlewyrchu cymysgedd o sgiliau a phrofiad o amrediad o weithwyr proffesiynol a sectorau.
- Datblygu cynllun hyfforddi ar gyfer y gweithlu a ddylai gynnwys staff yn y rheng flaen yn gwethio o fewn y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a'r gweithlu ehangach.
- Sicrhau bod staff wedi derbyn hyfforddiant gyda'r Offeryn Asesiad a Chymhwysedd Cenedlaethol ac mae'n rhaid iddyn nhw allu penderfynu'r angen i deulu, ffrindiau neu unigolion eraill eirioli ar ran yr unigolyn.

Mae Rhan 3 o'r Côd Ymarfer[3] yn gofyn am anghenion penodol mewn perthynas ag asesu'r anghenion.

- Mae'n rhaid i'r holl ymarferwyr sy'n ymgymryd ag asesiadau feddu ar sgiliau, ac wedi'u hyfforddi a'u cymhwyso i ymgymryd ag asesiadau. Mae lefelau priodol o gymwysterau ar gyfer ymgymryd â'r gweithgareddau hyn yn cynnwys:
    - Un ai ymarferydd gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol cofrestredig sy'n meddu ar gymhwyster proffesiynol lefel 5 neu uwch;

[1] Rhan 2 o'r Côd Ymarfer, paragraffau 303, 308-310, 326 a 331
[2] Rhan 2 o'r Côd Ymarfer, paragraffau 385-388
[3] Rhan 3 o'r Côd Ymarfer: anghenion asesu

- Neu unigolyn sy’n meddu ar gymhwyster gofal cymdeithasol lefel 4 neu uwch, sy’n cynnwys gwybodaeth a sgiliau, yn ymgymryd ag asesiad sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, o dan oruchwyliaeth ymarferydd cofrestredig mewn gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol.

- Bydd awdurdod lleol hefyd angen cael ei fodloni bod yr holl staff sy’n ymgymryd â’r gweithgareddau hyn yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a’r cymhwysedd i weithio gyda phlant a phobl ifanc, oedolion a gofalwyr, fel y bo’n briodol.

## Beth yw’r Fframwaith Cymwyseddau ar gyfer Gweithlu GCCh?

Mae *Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Gweithlu’r GCCh* (y fframwaith) yn amlinellu’r safonau a ddylid eu defnyddio i oleuo ymarfer i’r rhai hynny sydd ynghlwm â darparu gwybodaeth a/neu gyngor, a/neu gymorth ar gyfer gofal a chefnogaeth. Nid yw’r fframwaith yn orfodol, ond bwriedir iddo fod yn offeryn defnyddiol sy’n helpu awdurdodau lleol i ddatblygu cymhwysedd eu gweithwyr a chwrdd â’u rhwymedigaethau statudol.

Gellir defnyddio’r safonau yn y fframwaith gan sefydliadau, cyflogwyr a darparwyr dysgu er mwyn:

- nodi eu hyfforddiant, eu haddysg a’u datblygiad presennol er mwyn sicrhau bod yr holl destunau wedi derbyn ymdriniaeth ddigonol
- comisiynu neu ddatblygu hyfforddiant, addysg a datblygiad
- mesur a datblygu’r cymhwysedd y gweithwyr/myfyrwyr/gwirfoddolwyr sydd ynghlwm â gwasanaethau GCCh yn barhaus
- sicrhau bod cyfrifoldebau statudol yn cael eu cwrdd mewn perthynas â chyrhaeddiad addysg a chymwysterau gweithlu ehangach y GCCh
- adolygu a/neu ddatblygu polisïau a gweithdrefnau
- adolygu a/neu ddatblygu swydd-ddisgrifiadau a manylebau.

## Datblygu adnoddau i gefnogi’r fframwaith

Defnyddiwyd y safonau i ddatblygu cyfres o adnoddau hyfforddi, dysgu a datblygu a ellir eu defnyddio drwy Gymru er mwyn cefnogi ymarfer da.

DRAFT

Mae dau gymhwyster ar gael i'r gweithwyr hynny sy'n ymgymryd â swyddogaeth 'ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol', ac mae'r ddau fel ei gilydd yn ymdrin â'r holl safonau sydd yn y fframwaith:

- Tystysgrif AU mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol (Cymru) y Brifysgol Agored
- Lefel 4 Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol y *City and Guilds*

I'r rhai hynny sydd ddim ond yn ymgymryd â swyddogaethau nad ydyn nhw'n cynnwys ymwneud â chynllunio gofal a chefnogaeth (asesu, cynllunio ac adolygu), ceir amrediad o fodiwlau dysgu sy'n cael eu datblygu ac a ellir cael mynediad atyn nhw gan awdurdodau lleol ac unrhyw asiantaethau eraill sydd ynghlwm â darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth er mwyn cwrdd â'u hanghenion. Gellir cyflwyno'r rhain yn fewnol, eu comisiynu neu'u dilyn drwy ddarparwyr addysg sy'n cynnig y cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nodwch os gwelwch yn dda, byddai cynnwys a manylion yr hyfforddiant, yr addysg a'r datblygiad ar gyfer pob safon yn gwahaniaethu ar draws yr holl lefelau er mwyn adlewyrchu'r swyddogaethau, y cyfrifoldebau a beth mae pobl angen ei wybod a'i wneud.

Rhagwelir y byddai unrhyw hyfforddiamt, addysg a datblygiad yn cael ei gyflwyno o fewn cyd-destun y rheoliadau cenedlaethol presennol a'r polisi a'r canllawiau lleol a chenedlaethol.

Bydd hon yn ddogfen fyw a gall y safonau a amlinellwyd yn fframwaith gael eu diweddaru wrth i adnoddau gael eu datblygu. Bydd unrhyw fersiynau newydd yn cael eu rhifo a'u dyddio.

## Beth sydd yn y fframwaith cymwyseddau?

Mae saith adran yn y fframwaith:
Adran 1. Deddfwriaeth
Adran 2: Ymarfer Proffesiynol
Adran 3: Damcaniaethau a modelau a'u perthynas â dulliau sy'n seiliedig ar hawliau a dulliau sy'n ganolog ar yr unigolyn/plentyn
Adran 4: Ffactorau sy'n cyfrannu at unigolion a/neu ofalwyr sydd angen gofal a chefnogaeth
Adran 5: Y broses asesu a gofal a chynllunio cefnogaeth
Adran 6: Diogelu unigolion
Adran 7: Cefnogi'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol electronig

Mae pob adran wedi'i rhannu i gyfres o ganlyniadau a safonau dysgu.  Gall y safonau un ai fod yn wybodaeth neu'n ymarfer.

Mae rhywfaint o nodi **dangosol** yn erbyn y swyddogaethau 'gwybodaeth, cyngor a chymorth'.  **Fodd bynnag, dylai pob awdurdod lleol a/neu asiantaeth, farnu yn erbyn swyddogaethau eu gweithwyr.**

DRAFT

## Sut i ddefnyddio'r fframwaith

Dylai awdurdodau lleol nodi swyddogaethau eu gweithlu GCCh yn erbyn y safonau er mwyn sefydlu pa un a fyddai'n berthnasol i weithwyr unigol.  Byddai disgwyl i'r rhai hynny sy'n ymgymryd â swyddogaeth lawn ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol gwrdd â'r holl safonau.

Dylid wedyn defnyddio'r safonau a nodwyd ar gyfer pob gweithiwr i fesur ei gymhwysedd a datblygu rhaglen ddysgu a chefnogi er mwyn cwrdd ag unrhyw fylchau.  Byddai hyn yn sicrhau bod proses gadarn ar gyfer pawb sy'n rhan o weithlu GCCh.

Pa fathau o dystiolaeth a ellir eu defnyddio i ddangos bod y safonau wedi cael eu cyflawni?
Gellir defnyddio amrediad o dystiolaeth megis:

- cymhwyster cyrhaeddiad, er enghraifft, Lefel 4 Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol
- mynychu cwrs hyfforddi a myfyrio ar y dysgu wedyn
- arsylliadau
- adborth gan eraill, fel unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau / cwsmeriaid, cydweithwyr, mentoriaid ayyb.
- cyfnod prawf, goruchwyliaeth a chofnodion arfarnu

Nid oes unrhyw ddisgwyliad y bydd angen ailhyfforddi gweithwyr sydd wedi dangos eu bod wedi cwrdd â'r safonau a nodwyd. Fodd bynnag, efallai y bydd awdurdodau lleol yn dymuno ystyried defnyddio safonau ymarfer i oleuo prosesau goruchwyliaeth ac arfarnu er mwyn sicrhau bod yr ymarfer yn parhau i gwrdd â'r disgwyliadau.  Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn bwysig i bob gweithiwr beth bynnag fo'i rôl.

**Cadarnhau'r Dystiolaeth**
Gall amrediad o bobl arwyddo i gadarnhau bod y safonau a nodwyd wedi cael eu cwrdd.  Er enghraifft, rheolwr llinell yr unigolyn, arweinydd gweithlu neu ddarparwr dysgu.  Gall timau dysgu a datblygu'r awdurdod lleol ddarparu cyngor, canllawiau a chefnogaeth ar gyfer cadarnhau'r safonau hyn.

Dylai'r gweithiwr a'i reolwr llinell gwblhau'r datganiad terfynol.

DRAFT

## Adran 1. Deddfwriaeth

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Deall pwysigrwydd meithrin gwybodaeth am ddeddfwriaeth a safonau sy'n gymwys yng Nghymru | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 1.1 Pam ei bod hi'n bwysig i Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth a sut mae hyn yn ymwneud â'u rôl | X | X | X | | |
| | 1.2 Pwysigrwydd deall y rhyngberthynas rhwng gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth a sut y gall hyn effeithio ar:<br>• rôl Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• unigolion a gofalwyr<br>**Rhyngberthynas**: cefnogi a herio | | X | X | | |
| | 1.3 Rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant wrth bennu safonau sy'n anelu at wella canlyniadau i oedolion a phlant a phobl ifanc | X | X | X | | |
| 2: Deall Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 2.1 Nod, diben ac egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | X | X | X | | |
| | 2.2 Y diffiniad o lesiant a rôl gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2.3 Diffiniad a rôl Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | X | X | X | | |
| | 2.4 Y Datganiadau Canlyniadau Cenedlaethol a sut mae'r rhain yn ymwneud ag egwyddorion y Ddeddf | X | X | X | | |
| | 2.5 Y broses asesu - gan gynnwys anghenion cymwys ac anghymwys | | X | X | | |
| | 2.6 Sut mae'r Ddeddf yn deddfu o ran asesu a chefnogi gofalwyr yn ogystal ag unigolion | | X | X | | |
| | 2.7 Taliadau uniongyrchol, sut y cânt eu diffinio a sut y gellir eu defnyddio | | X | X | | |
| | 2.8 Y broses cynllunio gofal a/neu gymorth a'r broses adolygu | | X | X | | |
| | 2.9 Y mathau gwahanol o eiriolaeth a ddiffinnir yn y Ddeddf a'r Cod Ymarfer | X | X | X | | |
| | 2.10 Pryd y caiff eiriolaeth broffesiynol annibynnol ei sbarduno o dan y Ddeddf | X | X | X | | |
| 3: Deall deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 3.1 Prif **ddarpariaethau** Deddf Plant 1989 a 2004 sy'n gymwys yng Nghymru<br><br>**Darpariaethau:** I gynnwys amddiffyniadau - hawliau i gwyno, cael ymweliad gan weithwyr proffesiynol, hawliau cyfranogiad | | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 3.2 Prif ddarpariaethau Deddf Plant a Theuluoedd 2014 sy’n gymwys yng Nghymru | | X | X | | |
| | 3.3 Rhannau o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru sy’n berthnasol yn benodol i blant a phobl ifanc | | X | X | | |
| | 3.4 Polisi a chanllawiau cenedlaethol yn ymwneud â phobl ifanc sy'n gadael gofal | | X | X | | |
| | 3.5 Polisi a chanllawiau cenedlaethol yn ymwneud â phobl ifanc sy'n gadael gofal Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 | | X | X | | |
| | 3.6 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | X | X | X | | |
| | 3.7 Pan fydd gan blentyn neu berson ifanc hawl i gael mynediad at Eiriolwr Annibynnol | X | X | X | | |
| | 3.8 Deddfwriaeth, polisi cenedlaethol a chanllawiau eraill sy'n hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc | | X | X | | |
| 4: Deall Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 | 4.1 Nod a diben y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) | X | X | X | | |
| | 4.2 Sut mae'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn gymwys i rôl Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | | | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5: Deall y Ddeddf Hawliau Dynol | 5.1 Nod, diben a **chymhwysiad** Deddf Hawliau Dynol 1998<br><br>**Cymhwysiad:** lle mae'n gymwys a chyfrifoldebau, rôl cyrff/awdurdodau cyhoeddus | | X | X | | |
| | 5.2 Sut mae'r ddeddf hawliau dynol wedi'i hymgorffori mewn deddfwriaeth arall, a pholisïau a chanllawiau cenedlaethol | | | X | | |
| | 5.3 Erthyglau'r Ddeddf Hawliau Dynol | X | X | X | | |
| | 5.4 Confensiynau'r CU ac Offerynnau Hawliau Dynol a sut mae'r rhain yn ymwneud â'r Ddeddf Hawliau Dynol | | | X | | |
| 6: Deall y Ddeddf Cydraddoldeb | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 6.1 Nod, diben a chymhwysiad Deddf Cydraddoldeb 2010 | X | X | X | | |
| | 6.2 Nodweddion gwarchodedig a sut y caiff y rhain eu diffinio | X | X | X | | |
| | 6.3 Sut mae'r Ddeddf Cydraddoldeb wedi cael ei defnyddio i ddatblygu ymhellach arferion cydraddoldeb a gwrthwahaniaethol yn y DU | | | X | | |
| | 6.4 Mathau o ymddygiad gwaharddedig a sut y caiff y rhain eu diffinio | X | X | X | | |
| | 6.5 Addasiadau rhesymol a sut y dylai'r rhain gael eu defnyddio er mwyn sicrhau nad yw unigolion anabl dan anfantais | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 6.6 Dyletswyddau penodol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru | X | X | X | | |
| 7: Deall y Ddeddf Galluedd Meddyliol | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 7.1 Nod a diben y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) | X | X | X | | |
| | 7.2 Y prif **ddarpariaethau** a gyflwynwyd gyda'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a sut y gallant gael eu defnyddio i helpu unigolion i flaengynllunio<br><br>**Darpariaethau:** atwrneiaeth barhaol, dirprwy llys, penderfyniadau ymlaen llaw, cyfreithiwr swyddogol, cyfaill ymgyfreitha | | X | X | | |
| | 7.3 Prif egwyddorion deddfwriaeth galluedd meddyliol | X | X | X | | |
| | 7.4 Dau gam asesu galluedd, pwy all wneud hyn | | X | X | | |
| | 7.5 Sut y gall Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ddefnyddio'r Ddeddf Galluedd Meddyliol i ddiogelu hawliau dynol unigolyn | | | X | | |
| | 7.6 Y broses o gynnal cyfarfod budd pennaf a phwy ddylai gymryd rhan | X | X | X | | |
| | 7.7 Mesurau Diogelu Rhyddid a sut y dylai'r rhain gael eu cymhwyso | X | X | X | | |
| | 7.8 Sut i godi pryderon am gyfyngu ar ryddid neu amddifadu o ryddid | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | 7.9 Y rhyngberthynas rhwng y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Ddeddf Iechyd Meddwl | | X | X | | |
| | 7.10 Pan fo dyletswydd a phŵer i gyfeirio at Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynno | | X | X | | |
| 8: Deall y Ddeddf Iechyd Meddwl | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 8.1 Nod a diben Deddf Iechyd Meddwl 1983, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 | X | X | X | | |
| | 8.2 Y gwahaniaeth rhwng cleifion ffurfiol ac anffurfiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl | | X | X | | |
| | 8.3 Beth yw ystyr y term 'cymhelliad' | | X | X | | |
| | 8.4 Llwybrau a meini prawf cadw unigolyn o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl<br><br>**Llwybrau**: ar gyfer cleifion unigol a dderbynnir i'r ysbyty dan orfod adrannau sifil a fforensig, a wneir yn destun gwarcheidwaeth, a wneir yn destun Gorchymyn Triniaeth Gymunedol a Oruchwylir | | X | X | | |
| | 8.5 Pan fo dyletswydd i hysbysu unigolyn am ei hawl i gael cymorth gan Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol | X | X | X | | |
| | 8.6 Pryd mae dyletswydd i hysbysu unigolyn am ei hawl i gael cymorth gan Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 8.7 **Pwerau** o fewn deddfwriaeth iechyd meddwl gyfredol a phwy all eu gweithredu<br><br>**Pwerau**: pwerau cadw, pwerau trin, pwerau dal, pwerau'r heddlu | | X | X | | |
| | 8.8 Amrywiaeth o fesurau **diogelu** o fewn deddfwriaeth iechyd meddwl gyfredol.<br><br>**Mesurau Diogelu:** Tribiwnlys Haen Gyntaf, Gwrandawiad Rheolwyr Ysbyty, Perthynas Agosaf, Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol, yr hawl i ofyn am Feddyg a Benodir i Roi Ail Farn, yr hawl i gwyno | | X | X | | |
| 9: Deall deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 9.1 Deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg a sut mae hyn yn gysylltiedig â rôl Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol | X | X | X | | |
| | 9.2 Pwysigrwydd y 'Cynnig Gweithredol' o ran llesiant unigolion | X | X | X | | |
| | 9.3 Prif egwyddorion a darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | X | X | X | | |
| | 9.4 Gofynion deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg o ran cyrff cyhoeddus | X | X | X | | |

Adnoddau addysgu ar gyfer adran 1 - set o sleidiau PowerPoint y gellir eu cyflwyno yn eu cyfanrwydd neu eu rhannu i'w cyflwyno'n annibynnol ar gyfer pob canlyniad dysgu neu feini prawf penodol ar gyfer gwybodaeth a dealltwriaeth

## Adran 2: Ymarfer proffesiynol

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1: Sicrhau bod eich datblygiad proffesiynol parhaus yn cyrraedd safonau ac yn bodloni gofynion ac yn adlewyrchu arferion gorau yng nghyd-destun gweithio yng Nghymru | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 1.1 Cyfrifoldebau ac atebolrwydd proffesiynol yng nghyd-destun fframweithiau deddfwriaethol perthnasol, safonau, a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol | X | X | X | | |
| | 1.2 Gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol sy'n ymwneud â Dyletswydd Gonestrwydd a phwysigrwydd bod yn agored a gonest os aiff pethau o chwith | X | X | X | | |
| | 1.3 Bod yn atebol am ansawdd eich ymarfer eich hun | X | X | X | | |
| | 1.4 Pwysigrwydd cydnabod cyfyngiadau rolau a chyfrifoldebau a glynu wrthyn nhw | X | X | X | | |
| | 1.5 Sut a phryd i geisio cymorth ychwanegol mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'r rôl, cyfrifoldebau, lefel o brofiad ac arbenigedd neu'n ansicr ynghylch sut i fwrw ymlaen mewn perthynas â mater gwaith | X | X | X | | |
| | 1.6 Diben datblygu mewn modd personol a phroffesiynol a chymryd y cyfrifoldeb am wneud hynny | X | X | X | | |
| | 1.7 Yr amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a sut i achub arnynt | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1.8 Sut i ddefnyddio cyfleoedd dysgu yn effeithiol er mwyn gwella eich gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau ac ymarfer eich hun, gan gynnwys dysgu o brofiadau pob dydd | X | X | X | | |
| | 1.9 Sut i ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth i ddatblygu ymarfer a lywir gan dystiolaeth | X | X | X | | |
| | 1.10 Sut i gymhwyso dysgu a throsglwyddo sgiliau i sefyllfaoedd newydd | X | X | X | | |
| | **Ymarfer**<br>**Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:** | | | | | |
| | 1.11 Sicrhau eich bod yn bodloni gofynion deddfwriaethol, safonau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sy'n ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus | X | X | X | | |
| | 1.12 Defnyddio llenyddiaeth, ymchwil ac adolygiadau perthnasol er mwyn sicrhau bod ymarfer yn gyfredol ac yn effeithiol | | X | X | | |
| | 1.13 Gwerthuso eich gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau eich hun a'u hadolygu'n rheolaidd yn erbyn:<br><br>• gofynion deddfwriaethol perthnasol<br>• safonau a fframweithiau perthnasol<br>• Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • ymarfer a lywir gan dystiolaeth | | | | | |
| **2:** Bodloni gofynion ar gyfer cyflwyno, cofnodi a storio gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau arni | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 2.1 Gofynion deddfwriaethol ym maes **trin gwybodaeth**<br><br>**Trin gwybodaeth:** storio, cofnodi, cyfrinachedd, rhannu | X | X | X | | |
| | 2.2 Protocolau ar gyfer cael a chadarnhau cydsyniad:<br><br>• unigolion a theuluoedd/gofalwyr wrth rannu gwybodaeth â gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol<br><br>• unigolion wrth rannu gwybodaeth â theuluoedd/gofalwyr | X | X | X | | |
| | 2.3 Fformat a diben cofnodion, adroddiadau a rhannu gwybodaeth a sut y dylid **cyflwyno** hyn<br><br>**Cyflwynwyd:** yn ysgrifenedig ac ar lafar | X | X | X | | |
| | **Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:** | | | | | |
| | 2.4 Sicrhau bod eich ymarfer eich hun yn bodloni gofynion cofnodi a storio gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau arni yn y lleoliad gwaith | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2.5 Dilyn protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth â gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol, a theuluoedd/gofalwyr | X | X | X | | |
| | 2.6 Sicrhau bod eich cofnodion a'ch adroddiadau eich hun:<br>• yn fanwl gywir<br>• wedi'u dyddio<br>• yn wrthrychol<br>• yn eglur<br>• yn ddealladwy<br>• yn hygyrch 38 Lefel 4 Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol – Llawlyfr y Cymhwyster<br>• yn adlewyrchu barn unigolion a/neu deuluoedd/gofalwyr<br>• yn parchu unigolion a/neu deuluoedd/gofalwyr<br>• wedi'u hysgrifennu mewn ffyrdd nad ydynt yn stigmateiddio unigolion a/neu deuluoedd/gofalwyr nac yn atgyfnerthu canfyddiadau negyddol ohonynt<br>• yn defnyddio iaith a disgrifyddion cywir ar gyfer cyflyrau penodol<br>• yn gwahaniaethu rhwng ffaith a barn | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • wedi'u cyflwyno i'r sawl sydd angen gwneud penderfyniadau neu gymryd camau gweithredu<br>• • wedi'u storio, eu rhannu a'u cadw yn unol â pholisïau, gofynion cyfreithiol a mesurau diogelu data'r sefydliad | | | | | |
| **3** Datblygu trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 3.1 Egwyddorion a **phrotocolau** gweithio mewn partneriaeth<br><br>**Protocolau**: cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, cadw cofnodion | X | X | X | | |
| | 3.2 Ystyr y term ‘cydgynhyrchiad’ mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth | X | X | X | | |
| | 3.3 Ystod a rôl partneriaid, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol | X | X | X | | |
| | 3.4 Sut mae deddfwriaeth yn llywio'r angen i weithio mewn partneriaeth i unigolion a gofalwyr | X | X | X | | |
| | 3.5 Gwerth cael partneriaid, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau yn cydweithio i helpu unigolion a/neu ofalwyr i gyflawni canlyniadau cadarnhaol | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | 3.6 Pwysigrwydd sicrhau bod pob achos o weithio mewn partneriaeth yn cynnwys unigolion a/neu eu gofalwyr | X | X | X | | |
| | **Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:** | | | | | |
| | 3.7 Hyrwyddo diwylliant o weithio mewn partneriaeth | X | X | X | | |
| | 3.8 Dilyn egwyddorion gweithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu wrth weithio gydag eraill | X | X | X | | |
| | 3.9 Ennyn ymddiriedaeth a hyder â phartneriaid, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau gan gydnabod rolau, cyfrifoldebau, atebolrwyddau ac arbenigedd chi'ch hun ac eraill | X | X | X | | |
| | 3.10 Datblygu cydberthnasau effeithiol â phartneriaid a gweithwyr proffesiynol eraill wrth gynnal ffiniau proffesiynol clir ar yr un pryd | X | X | X | | |
| | 3.11 Cymryd camau i ddatrys heriau sy'n codi wrth weithio mewn partneriaeth | X | X | X | | |
| | 3.12 Dilyn protocolau cytûn ar gyfer gweithio mewn partneriaeth | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Protocolau**: cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, cadw cofnodion | | | | | |
| | 3.13 Hyrwyddo hawliau a llesiant unigolion a/neu ofalwyr gyda phartneriaid, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau | X | X | X | | |

Adnoddau addysgu ar gyfer adran 2 – set o sleidiau PowerPoint y gellir eu cyflwyno yn eu cyfanrwydd neu eu rhannu i’w cyflwyno’n annibynnol ar gyfer pob canlyniad dysgu neu feini prawf penodol ar gyfer gwybodaeth a dealltwriaeth

DRAFT

**Adran 3: Deall damcaniaethau a modelau a'u perthynas ag ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau seiliedig ar hawliau**

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1: Deall damcaniaethau a modelau sy'n cefnogi ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau seiliedig ar hawliau | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 1.1 Y cysyniad o ddamcaniaethau a modelau a'r gwahaniaethau rhyngddynt | | | X | | |
| | 1.2 Y cysyniad o ddinasyddiaeth a sut mae hyn yn hyrwyddo cyfranogiad a chynhwysiant ar gyfer pob aelod o gymdeithas | X | X | X | | |
| | 1.3 Sut mae gwerthoedd ac ymddygiadau yn effeithio ar ymarfer person/plentyn-ganolog a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd | X | X | X | | |
| | 1.4 Sut y gall ystyried **hawliau a rhyddid** gael ei gydbwyso â risg<br><br>**Hawliau a rhyddid:** dull hawliau dynol (i hyrwyddo ymarfer person/plentyn-ganolog ac asesu angen a risg, gan gynnwys yr hyn sy'n bwysig i unigolion) | | X | X | | |
| | 1.5 Damcaniaethau cymdeithasegol a'u cysylltiad ag ymarfer person/plentyn-ganolog | | | X | | |

| **Canlyniad Dysgu** | **Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer** | **Gwybodaeth** | **Gwybodaeth a Chyngor** | **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** | **Tystiolaeth** | **Llofnod a Dyddiad** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1.6 Damcaniaethau seicolegol a'u cysylltiad ag ymarfer person/plentyn-ganolog | | | X | | |
| | 1.7 Modelau cymdeithasol a meddygol anabledd a'r tensiynau posibl rhyngddynt | X | X | X | | |
| | 1.8 Y model bioseicogymdeithasol fel ffordd o ddylanwadu ar ymarfer person/plentynganolog | | | X | | |
| **2:** Deall datblygiad dynol gydol oes a'r ffactorau a all effeithio arno | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 2.1 Pam mae dealltwriaeth o ddatblygiad dynol yn bwysig i rôl ymarferwr gwasanaethau cymdeithasol | | X | X | | |
| | 2.2 Camau allweddol datblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd yn ystod:<br>• y cyfnod cynenedigol<br>• plentyndod cynnar<br>• llencyndod<br>• oedolaeth ifanc | | X | X | | |
| | 2.3 Y **ffactorau** posibl a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a allai effeithio ar ddatblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd mewn perthynas **â thwf corfforol, emosiynol a gwybyddol** | | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ffactorau**: corfforol, amgylcheddol, genetig<br>**Twf corfforol, emosiynol a gwybyddol**: cyrraedd cerrig milltir datblygiadol, cyfathrebu, ymlyniad, rheoli emosiynau, ffurfio'r cof, llwybrau synhwyraidd, sgiliau echddygol bras a manwl | | | | | |
| | 2.4 Y posibilrwydd y gall straen a thrawma beri niwed i ddatblygiad a llesiant cyffredinol gydol oes | | X | X | | |
| | 2.5 Cysylltiadau rhwng profiadau o drawma a cham-drin, camau datblygu ac ymddygiad gydol oes | | X | X | | |
| | 2.6 Pam na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig efallai | | X | X | | |
| | 2.7 Y ffyrdd y gall datblygiad arafach mewn un maes effeithio ar y gallu i ddysgu sgiliau mewn meysydd eraill | | X | X | | |
| | 2.8 Cysylltiadau rhwng profiad y teuluoedd eu hunain gydol oes, eu gwybodaeth am ddatblygiad plant a'u disgwyliadau ar gyfer nhw eu hunain a'u plant | | X | X | | |
| | 2.9 Yr amrywiaeth o **ddosbarthiadau ymlyniad** a'r ffordd y mae'r rhain yn gysylltiedig â **phrofiadau bywyd** | | | X | | |

DRAFT

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dosbarthiadau ymlyniad**:sicr, amwys, osgoi, di-drefn<br><br>**Profiadau bywyd:** esgeulustod a cham-drin, trawma, lleoliadau lluosog, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod | | | | | |
| | 2.10 Damcaniaethau ymlyniad a'u pwysigrwydd o ran:<br>• cefnogi gwydnwch, llesiant a datblygiad cyfannol plant a phobl ifanc<br>• deall effaith bosibl anawsterau o ran ymlyniad ar unigolion gydol eu hoes, y ffordd y maent yn gweithredu mewn cymdeithas, yn meithrin perthnasoedd ac yn ymateb i eraill<br><br>**Damcaniaethau ymlyniad:** damcaniaethwyr – John Bowlby, Mary Ainsworth, Mary Main, Dollard a Miller | | | X | | |
| **3** Deall damcaniaethau a modelau sy'n gysylltiedig â newid | 3.1 Mathau o newidiadau a all ddigwydd yn ystod bywyd unigolyn o ganlyniad i ddigwyddiadau arwyddocaol mewn bywyd neu drawsnewidiadau | X | X | X | | |
| | 3.2 **Damcaniaethau a modelau** sy'n gysylltiedig â newid | | | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Damcaniaethau a modelau:** cromlin newid Kubler-Ross, Model Trawsnewid William Bridges | | | | | |
| | 3.3 Pwysigrwydd helpu unigolion a/neu deuluoedd/gofalwyr i ganolbwyntio ar eu hasedau a'u cryfderau a all eu helpu yn ystod cyfnodau o newid | X | X | X | | |
| 4 Deall pwysigrwydd defnyddio ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau seiliedig ar hawliau | 4.1 Ystyr y term 'cydgynhyrchu' a sut mae'n cefnogi ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau seiliedig ar hawliau | X | X | X | | |
| | 4.2 Pam mae'n bwysig sicrhau bod unigolion a gofalwyr yn cael cymorth i:<br>• leisio barn a rheoli eu bywydau<br>• mynegi a chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt<br>• cymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon sy'n bwysig iddynt<br>• cynnal a datblygu cydberthnasau cadarnhaol rhwng y naill a'r llall<br>• cymryd rhan yn eu cymunedau<br>• byw bywydau llawn a gwerthfawr<br>• rheoli'r cyfyng gyngor a geir wrth bwyso a mesur eu hawl i | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gymryd risgiau a'u diogelwch a'u llesiant | | | | | |
| | 4.3 Beth yw ystyr **'cydsyniad'**; amgylchiadau pan mae'n rhaid cael hyn a'r amgylchiadau pan gellir ei drechu<br><br>**Cydsyniad:** oedolion, plant a phobl ifanc, teuluoedd a gofalwyr | X | X | X | | |
| | 4.4 Y rhyngberthynas rhwng cymryd risgiau cadarnhaol a chyfrifoldebau, llais a rheolaeth, a chynhwysiant cymdeithasol | | X | X | | |
| | 4.5 Pwysigrwydd cymryd risgiau i unigolion mewn bywyd bob dydd | | X | X | | |
| | 4.6 Effaith atal unigolion rhag cymryd risgiau, neu eu darbwyllo rhag gwneud hynny | | X | X | | |

Adnoddau addysgu ar gyfer set adran 3 o sleidiau power point y gellir eu cyflwyno yn eu cyfanrwydd neu eu rhannu i’w cyflwyno’n annibynnol ar gyfer pob canlyniad dysgu neu feini prawf penodol ar gyfer gwybodaeth a dealltwriaeth

## Adran 4: Deall ffactorau sy'n cyfrannu at yr angen i unigolion a/neu ofalwyr gael gofal a chymorth

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1: Deall sut mae fframweithiau deddfwriaethol, polisïau cenedlaethol a modelau darparu gwasanaethau yn anelu at ategu gofal a chymorth sy'n seiliedig ar hawliau a chryfderau, sy'n berson/plentyn-ganolog, ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 1.1 Fframweithiau deddfwriaethol, polisïau cenedlaethol a modelau dylunio a darparu gwasanaethau cyfredol a'u nodau o ran helpu unigolion a gofalwyr i:<br>• fyw bywydau llawn a gwerthfawr • hawliau<br>• cydraddoldeb<br>• llais a rheolaeth<br>• cefnogi gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar<br>• llesiant<br>• diogelwch<br>• cydgynhyrchu<br>• cynhwysiant a chyfranogiad<br>• dewisiadau bywyd<br>• cyfleoedd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol/yr hyn sy'n bwysig<br>• mynediad at gyfleusterau cymunedol<br>• mynediad at ofal iechyd | X | X | X | | |
| | 1.2 Pwysigrwydd sicrhau bod anghenion, dymuniadau a dewisiadau unigolion yn llywio'r cymorth a'r gwasanaeth a geir yn hytrach na | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | chael unigolion i ffitio i mewn i ddarpariaeth bresennol nad yw'n cyflawni canlyniadau a nodwyd efallai | | | | | |
| | 1.3 Sut y gall rhywedd, ethnigrwydd ac iaith, ac amgylcheddau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol effeithio ar unigolion a'r cymorth a gânt | X | X | X | | |
| | 1.4 **Effaith bosibl** cael gofal a chymorth<br><br>**Effaith bosibl:** cadarnhaol a negyddol | | | | | |
| | 1.5 Sut y gall barn a thybiaethau ystrydebol eraill:<br>• gael eu dylanwadu'n amhriodol gan ffactorau, amodau neu amgylchiadau unigolion, teuluoedd a gofalwyr<br>• arwain at stigmateiddio unigolion, teuluoedd a gofalwyr<br>• cael effaith negyddol ar unigolion, teuluoedd a gofalwyr a'r ffordd maent yn gweithredu | X | X | X | | |
| | 1.6 Pam mae'n bwysig edrych ar unigolion a gofalwyr o safbwynt cyfannol | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1.7 Pam ei bod hi'n bwysig i bob unigolyn a/neu ofalwr gael ei gydnabod am ei alluoedd, anghenion, cryfderau, a doniau unigol ei hun | X | X | X | | |
| | 1.8 Pwysigrwydd herio rhagfarn, delweddau ystrydebol, gwahaniaethu ac agweddau negyddol | X | X | X | | |
| **2:** Deall y rhesymau pam y gall fod angen i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr gael gafael ar ofal a/neu wasanaethau | 2.1 Yr amgylchiadau a'r sefyllfaoedd penodol a all olygu bod angen i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr gael gofal a chymorth | X | X | X | | |
| | 2.2 Yr amrywiaeth o wasanaethau, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n darparu cymorth i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr | X | X | X | | |
| **3:** Deall cyd-destun gofalwyr yng Nghymru | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 3.1 Y diffiniad deddfwriaethol o ofalwyr | X | X | X | | |
| | 3.2 Demograffeg gofalwyr | X | X | X | | |
| | 3.3 Y cyfraniad y mae gofalwyr yn ei wneud:<br>• at ansawdd bywyd unigolion<br>• at agenda bolisi atal ac ymyrryd yn gynnar | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 3.4 Y berthynas rhwng cefnogi gofalwyr a chynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth | | X | X | | |
| | 3.5 Pwysigrwydd hyrwyddo'r gwaith o gefnogi llesiant gofalwyr, cynhwysiant cymdeithasol, addysg a chyflogaeth drwy gynllunio a darparu gwasanaethau | X | X | X | | |
| | 3.6 Ffactorau a all effeithio ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol gofalwyr | X | X | X | | |
| | 3.7 Effaith bosibl **newid a throsglwyddo** ar ofalwyr<br><br>**Newid a throsglwyddo:** yn ymwneud â'r unigolyn, y gofalwyr neu pan fo'r rôl ofalu yn dod i ben | X | X | X | | |
| | 3.8 Yr opsiynau asesu sydd ar gael i'r gofalwr a'r gofalwr ifanc gan gynnwys asesiadau ar y cyd â'r unigolyn | | X | X | | |
| | 3.9 Pwysigrwydd cydnabod na fydd pawb sy'n gwneud gwaith di-dâl am gael eu labelu'n ofalwyr na chael eu cydnabod felly | X | X | X | | |
| | 3.10 Sut i ystyried rôl gofalwyr mewn ffordd sensitif, ynghyd â'r ffordd y gallent fod am gael eu cefnogi | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| 4: Deall y cysyniad o anabledd a nam corfforol | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 4.1 Ystyr y termau 'anabledd', 'anabl' a 'nam corfforol' | X | X | X | | |
| | 4.2 Pwysigrwydd cadarnhau gydag unigolion y derminoleg maent yn ei ffafrio a chydnabod y gall hyn newid dros amser | X | X | X | | |
| | 4.3 Ystyr y termau 'genedigol', 'a gafwyd', 'niwrolegol' a 'gwaethygol' yng nghyd-destun nam corfforol | | | X | | |
| | 4.4 Pwysigrwydd rhoi'r unigolyn yn y canol, yn hytrach na'r nam | X | X | X | | |
| | 4.5 Effeithiau (cadarnhaol a negyddol) cael eich labelu fel rhywun â nam corfforol | X | X | X | | |
| | 4.6 **Effeithiau cadarnhaol rhwystrau cymdeithasol** ac amgylcheddol ar unigolyn ag anabledd corfforol<br><br>**Effeithiau posibl:**allgáu, economaidd-gymdeithasol, addysg, cyflogaeth, symudedd, annibyniaeth, llesiant emosiynol a chorfforol, iechyd meddwl, dewisiadau bywyd | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhwystrau cymdeithasol ac amgylcheddol:** agweddau ystrydebol, iaith negyddol/sarhaus, rhwystrau corfforol a sefydliadol | | | | | |
| 5: Deall salwch meddwl | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 5.1 Ystyr y term 'salwch meddwl'. | X | X | X | | |
| | 5.2 Y **mathau o broblemau iechyd meddwl** a'r symptomau y gall unigolion eu profi<br><br>**Problemau iechyd meddwl:** i gynnwys iselder, anhwylderau gorbryder, seicosis, anhwylder deubegynol, sgitsoffrenia, anhwylderau personoliaeth, anhwylderau bwyta, anhwylder straen ar ôl trawma, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) | X | X | X | | |
| | 5.3 **Y ffactorau** a all ddylanwadu ac effeithio ar lesiant unigolyn ac a all arwain at gyfnod o salwch meddwl<br><br>**Ffactorau**: Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, digwyddiadau niweidiol eraill/trawma arall mewn bywyd a brofir fel oedolyn, gwahaniaethu, tlodi, salwch corfforol | | X | X | | |
| | 5.4 Arwyddion a symptomau posibl salwch meddwl | X | X | X | | |
| | 5.5 Yr amrywiaeth o wasanaethau, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n | X | X | X | | |

| Canlyniad Dysgu | Safonau hyfforddi, dysgu, datblygu ac ymarfer | Gwybodaeth | Gwybodaeth a Chyngor | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Tystiolaeth | Llofnod a Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | darparu cymorth i unigolion sy'n profi salwch meddwl | | | | | |
| | 5.6 Modelau a dulliau a all gael eu defnyddio i gefnogi prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ag unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl | X | X | X | | |
| 6: Deall dementia | **Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** | | | | | |
| | 6.1 Mathau o ddementia, eu hachosion posibl a'r amrywiaeth o effeithiau gwahanol sy'n gysylltiedig â phrognosis unigolyn, ei alluoedd a'i iechyd a'i lesiant cyffredinol | X | X | X | | |
| | 6.2 Y gwahaniaethau rhwng y prif fathau o ddementia, a'r hyn sy'n **gyffredin** rhyngddynt<br><br>**Pethau sy'n gyffredin:** symptomau cyffredin a chyflwyniad dementia, y cof, arddel barn, iaith ac ymgyfeiriad | X | X | X | | |
| | 6.3 **Amharu ar y cof** a'i effaith o ran dementia<br><br>**Nam ar y cof**: arwyddocâd cof byrdymor o ran sylweddoli gwybodaeth a thri phrif gategori cof hirdymor, sef cof Semantig (gallu cofio ffeithiau), cof Cyfnodol (gallu cofio digwyddiadau a phrofiadau ac emosiynau) a chof Gweithdrefnol (cof ymhlyg sy'n gysylltiedig â swyddogaeth echddygol fel llofnodi eich enw, gyrru car ac ati.) | X | X | X | | |

